

Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 17eg Fehefin 2014

Presennol - Helen Ellis Cadeirydd, Alun Jones, John D Jones, Hefin Edwards, Ieuan Jones, Menai Hughes, Einion Edwards, Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Menai Hughes, Guto G Jones, Prys Ellis, Iwan Price.

Datgan diddordeb - Datganwyd diddordeb gan Helen Ellis yng nghofnod [1.9c] a Ieuan Jones yng nghofnod [1.9a] Penderfynwyd nad oedd nad eu presenoldeb yn rhagfarnu ar y materion dan sylw.

Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd

Penderfynwyd yn unfrydol i ethol Einion Edwards yn Gadeirydd a Hefin Edwards yn Is Gadeirydd y Cyngor.

Cofnodion, Cadarnhawyd y cofnodion a gynhaliwyd ar y 7fed Fai 2014

Materion yn Codi

[1] Dyfodol y Llyfrgell

Nodwyd bod trafodaethau yn parhau ynglŷn â dyfodol y llyfrgell.

[1.1] Yr Heddlu

Dywedodd y clerc nad oedd gair nac unrhyw wybodaeth am faterion lleol wedi ei dderbyn gan yr heddlu.

[1.2] Cysgodfa Bws/Uwch y Llan

Deallwyd bod llawr y gysgodfa ar hyn o bryd yn cael ei ail osod.

[1.3] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Dywedodd y clerc bod y manylion ynglŷn â'r cynllun wedi eu hanfon ymlaen i'r Cyngor Sir.

[1.4] Ms Heidi Dobbs/Trefnu ar gyfer Argyfwng

Dywedodd y clerc ei fod yn parhau i ddisgwyl gair oddiwrth Ms Dobbs.

[1.5] Cae Chwarae Ty'n y Felin/ Gosod Goliau

Nodwyd bod y goliau wedi cyrraedd.

[1.6] Pant Blaidd Ffordd Cwmpenanner/ Creu lle i foduron fynd heibio

Y clerc i anfon at y Bwrdd Dwr yn gofyn iddynt greu lle i foduron fynd heibio.

[1.7] London House/Croesi'r Ffordd

Eglurodd y clerc iddo ynghyd a Mr Ifor Jones, Alun Jones a Peter Lewis gwrdd peiriannydd o Gyngor BS Conwy yn y lleoliad, a bod addewid wedi ei wneud gan Wil Roberts y peiriannydd i osod arwydd yn rhybuddio gyrwyr ynglŷn â cherddwyr yn croesi'r ffordd. Dywedodd hefyd os bydd arian ar gael yn y dyfodol, bydd cyfle i wneud rhagor o welliannau.

[1.8] Goleuadau/Maes y Ffynnon

Nodwyd bod y mater yn parhau.

Y brif agenda

[1.9]] Materion Cynllunio

[a] Codi tyrbin gwynt, Cappele Cwmpenanner

[b] Adeiladu llinell 11kw, Gydrod Isaf.

[c] Estyniad, Rhianfa Glasfryn

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau uchod.

[d] Adeiladu 4 annedd preswyl gan gynnwys 3 annedd fforddiadwy ynghyd a chreu mynedfa a.y.b. Cae'r Ffynnon, Cerrig-y-Drudion

Penderfynwyd cefnogi'r cais gan anfon y sylwadau canlynol

[a] Bod y Cyngor yn pryderu bod y fynedfa i'r safle gyferbyn a mynedfa'r ysgol.

[b] Er mwyn cefnogi teuluoedd ifanc, gwell fuasai cynnig dau dy tair llofft yn hytrach na dau fyngalo fel rhan o'r datblygiad tai fforddiadwy.

[2] Cae Llwyd

Cadarnhaodd y clerc iddo dderbyn gweithredoedd y cae gan y Cyngor Sir, a bod y cae wedi ei gofrestru yn enw'r Cyngor Cymuned.

[2.1] Cyfrifon/Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol

[a] Rhoddwyd sylw i gyfrifon y Cyngor [Ebrill 2013 – Mawrth 2014] a ddosbarthwyd i'r aelodau.

[b] Cyfeiriodd y clerc at sylwadau gan yr archwiliwr yn cynghori y dylai derbyniadau'r fynwent fod wedi ei rhifo ar y daflen cyfrifon. Y clerc i gynnwys y rhifau ar y daflen.

Penderfynwyd cymeradwyo'r cyfrifon.

[2.2] Grŵp Cynefin

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan y grŵp uchod yn datgan eu bod yn awyddus i gwrdd ag aelodau'r Cyngor yn yr Ystafell Blwyf ar y 7fed Orffennaf am 7.00 y.h.

Cadeirydd_____